

## **Bwletin Awdurdod S4C - Hydref 2000**

Fe gynhaliodd yr Awdurdod gyfarfodydd ym Mlaenau Ffestiniog, ar 28 a 29 Medi 2000.

### **Y Cyfarfod Agored**

Ar nos Iau, 28 Medi, fe gynhaliodd yr Awdurdod ei gyfarfod cyhoeddus agored mwyaf diweddar lle bu oddeutu 25 o'r cyhoedd yn bresennol.

Yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod, Elan Closs Stephens, bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth hefyd. Yn ogystal, bu nifer o Aelodau eraill yr Awdurdod yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod.

Ymysg y materion a drafodwyd oedd:

### **Sylwadau Pobl Ifanc**

Dechreuwyd y cyfarfod drwy holi yn benodol y bobl ifanc oedd yn bresennol beth oedd eu hoff raglenni a gwahoddiwyd hwynt i gyfeirio at raglenni yn gyffredinol ar draws yr holl sianelau. Ymhlith y rhaglenni ar S4C roedd y bobl ifanc yn gwylio oedd *Pam fi Duw*, *Rownd a Rownd*, *Amdani* a *Sgorio*. Pwynt pwysig i S4C ei nodi oedd y ffaith fod y bobl ifanc hyn fel arfer allan gyda'u ffrindiau yn gynnar yn y nos, rhwng 6.00 y.h. a 9.00 y.h. sef yr adeg pan oedd S4C yn darlledu'r rhan fwyaf o'u rhaglenni Cymraeg.

Holwyd pa fathau o raglenni fyddai'r bobl ifanc yn dymuno eu gweld ar S4C. Atebwyd y byddent yn hoffi gweld sioeau talentau tebyg i *Stars in their Eyes* neu sioeau ar gyfer pobl heb brofiad. Hefyd, tra cydnabuwyd bod S4C yn ceisio bod yn fwy modern wrth ddarlledu rhaglenni fel *Pam fi Duw?*, gofynnwyd i'r Sianel ddangos rhaglenni oedd yn berthnasol i'r hyn roedd pobl ifanc yn cael eu dysgu yn yr ysgol, er enghraifft, gofynnwyd am raglenni yn ymwneud a llenyddiaeth, cerddi a barddoniaeth Gymraeg a fyddai ar y Cwricwlwm.

### **Sylwadau'r Gynulleidfa Gyffredinol**

#### **Rhaglenni**

Bu *Pobol y Cwm* yn bwnc trafodaeth ymhlith gweddill y gynulleidfa. Teimlwyd bod y rhaglen wedi colli ei ffordd o ran straeon a ddim cystal ag y bu yn y gorffennol. Teimlwyd bod cael gwared o gymeriadau o'r Gogledd wedi bod yn gam gwael. Nad oedd natur y carwriaethau yn y gyfres sebon yn plesio chwaith. Roedd storïau hefyd yn symud yn rhy araf ac yn cael eu tynnu allan. Er hynny, teimlodd rhai o'r gynulleidfa y dylid cydnabod bod *Pobol y Cwm* yn ymdrin â rhai pynciau sensitif yn dda iawn. Bu yna, i rai, ar un adeg demtasiwn i droi i ffwrdd o *Pobol y Cwm* oherwydd roeddynt wedi diflasu â hi, ond cydnabuwyd bod y gyfres wedi dechrau gwella yn ddiweddar.

Roedd rhaglenni dogfen yn plesio'n fawr a hefyd rhaglenni *Newyddion* a *Manifffesto*. Teimlwyd bod y *Celtiaid* yn gyfres arbennig o dda a gofynnwyd am fwy o'r math yma o raglen.

Roedd yna beth anesmwythder wedi'i leisio ynglyn â rhaglenni fel *Brodyr Bach* oedd yn gwneud hwyl am bennau pobl a lle gwelwyd pobl yn cael eu bychanu. Soniwyd, er hynny, bod y bobl berthnasol yn rhoi caniatâd i'r rhaglen gael ei ddarlledu. Tra nodi'r hyn a ddywedwyd mynegwyd amheuaeth ynglyn â phobl yn bod yn ddigon cryf i ddweud eu bod yn anfodlon i'r rhaglen gael ei dangos.

Rhoddodd y gynulleidfa gymeradwyaeth i'r sylwad fod yna ormod o raglenni chwaraeon ar S4C. Roedd dydd Sadwrn yn arbennig o rwystredig wrth droi o sianel i sianel a dim byd yn cael ei gynnig ond chwaraeon. Atebodd Huw Eirug fod llawer o bobl yn mwynhau chwaraeon ac i fod yn realistig, ar y penwythnos yr oedd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau chwaraeon yn cymryd lle, felly roedd yn anochel mai dyma'r adeg y byddai darlledwyr yn dangos y rhaglenni yma.

Beirniadodd rai o'r gynulleidfa raglenni comedi S4C – holwyd lle'r oedd ysgrifenydd comedi S4C. Soniodd Huw Eirug fod beirniadaeth o raglenni comedi S4C wedi'i lleisio ym mhob cyfarfod agored yr oedd wedi bod ynddo a chydnabyddodd bod S4C wedi methu ar nifer o adegau yn y maes yma. Er gwaetha'r enghreifftiau o fethiant, serch hynny, teimlodd y dylai S4C ddal ati i geisio ddod o hyd i raglenni comedi fyddai'n llwyddo.

Awgrymwyd nad oedd S4C yn cydnabod rhai digwyddiadau hanesyddol fel y dylai. Yn benodol, cyfeiriwyd at y ffaith na fu rhaglen yn sôn am y 'Battle of Britain'. Fe wnaeth aelod arall o'r gynulleidfa werthfawrogi'r sylw a roddwyd i Owain Glyndwr, a holwyd os oedd rhywbeth tebyg yn cael ei wneud i gydnabod arwyr neu dywysogion eraill Cymru, er enghraifft, Llywelyn ein Llyw Olaf ym mis Rhagfyr, y dywysoges Gwenllïan ar ei phenblwydd ym mis Mehefin? Roedd angen i'r Cymry ddangos eu balchder yn eu harwyr fel a wneir mewn gwledydd eraill. Cydnabuodd Huw Eirug y ffaith na wnaeth S4C raglen ar y Battle of Britain a soniodd nad oedd cynlluniau ar gyfer rhaglenni ar Llywellyn na Gwenllïan chwaith. Er hynny, cydnabuodd fod gan S4C ddylyetswydd i nodi dyddiadau pwysig yn y calendr er cof cenedl, a soniodd fod gyfres *Y Celtiaid* yn esiampl o'r athroniaeth hynny. Byddai S4C yn parhau i edrych ar ba ddigwyddiadau y dylid eu nodi yn y dyfodol.

## **Iaith a Throsleisio/Is-deitlo**

Wedi i aelod o'r gynulleidfa feirniadu *Heno* fel rhaglen anniddorol, lleisiodd person arall y farn ei fod i bob pwrpas yn rhaglen ddwyieithog, nid yn rhaglen Gymraeg. Aeth y drafodaeth ymlaen i ystyried yn fwy manwl bolisi S4C ynglyn â pheidio trosleisio cyfweiliadau yn y Saesneg. Mynegwyd y farn y dylid trosleisio'r fath gyfweiliadau, mynegodd eraill y byddai'n well pe bai'r fath gyfweiliadau yn cael eu is-deitlo fel oedd yn digwydd mewn gwledydd eraill lle'r oedd y mwyafrif o bobl yn deall Saesneg. Er hynny, esboniodd Huw Jones fod Cymru ychydig yn wahanol i wledydd eraill gan fod pawb yn gallu deall y Saesneg ac yr oedd S4C o'r farn y dylid cydnabod hynny. Roedd y dystiolaeth oedd ar gael yn dilyn ymchwil gan S4C yn dangos y byddai'n well gan wylwyr glywed rhywun fel Tony Blair neu Ryan Giggs yn uniongyrchol heb fod llais rhywun arall yn dod rhwng y person oedd yn cael ei g/chyfweld a'r gwylwr. Er hynny, roedd S4C yn ymwybodol bod rhaid bod yn ofalus iawn gyda'r defnydd o Saesneg ac ni fwriadwyd newid yr angen i gael cyfiawnhad go gryf ar gyfer cynnwys cyfweiliadau yn y Saesneg mewn rhaglenni Cymraeg.

Lleisiodd aelod o'r cyhoedd y farn fod gan S4C gyfrifoldebau blaenllaw iawn parthed yr iaith Gymraeg. Roedd pobl yng Nghymru, er enghraifft, wedi dod yn fwy cyfarwydd â thafodieithoedd ei gilydd a chredwyd bod hynny'n rhywbeth pwysig. Soniwyd bod pobl weithiau'n gofyn beth sydd yn uno'r Cymry fel cenedl ac awgrymwyd mai un o'r pethau hynny oedd S4C. Aethpwyd ymlaen i sôn sut yr oedd S4C yn gyfrifol am ddiwydiant mawr yng Nghymru o ran cwmnïau cynhyrchu rhaglenni, diwydiant sylweddol trwy'r iaith Gymraeg sydd yn medru digwydd mewn unrhyw ran o Gymru. Roedd yn fater i ymfalchïo ynddo bod y cyfryngau hefyd wedi rhoi cyfle i sêr godi yng Nghymru.

## **Gwylio S4C yn y Gogledd**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at siom S4C ynglyn â'r ffigurau gwylio yn y Gogledd a holwyd y gynulleidfa beth oeddynt yn teimlo oedd yn gyfrifol am hyn. Rhoddwyd y farn fod yna ormod o ogwydd i'r de; roedd hyn yn arbennig o wir am y *Newyddion*. Bu i un o'r gynulleidfa ar un noson nodi i lawr o ble ddaeth bob eitem ar y rhaglen ac allan o'r 12 eitem daeth 11 o'r De ac 1 o'r Gogledd.

## **Digidol**

Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd pobl oedd yn byw ar bensiwn yn gallu fforddio talu £20 y mis i dderbyn teledu digidol. Cyfeiriodd Elan Closs Stephens at daflen oedd ar gael oedd yn esbonio sut y gallai bobl dderbyn teledu digidol heb orfod talu £20 y mis amdano. Tra'n cydnabod nid pawb oedd yn gallu fforddio talu £100 am deledu digidol, fe wnaeth Huw Jones annog pobl i fynd at eu siopau teledu lleol a holi ynglyn â'r trefniant o dalu £100 unwaith ac am byth er mwyn derbyn y sianelau digidol hynny oedd ar gael yn rhad ac am ddim.

## **Cyfarfod Busnes**

### **Croeso**

Rhoddwyd croeso cynnes i Mr John Howells, Ysgrifennydd newydd Awdurdod S4C, wrth iddo fynychu ei gyfarfod cyntaf.

### **Gwyl Deledu yng Nghaeredin a Chynlluniau'r BBC ar gyfer y Dyfodol**

Bu'r Cadeirydd yn bresennol yn yr wyl a soniodd yn benodol ynglyn ag araith Greg Dyke, Rheolwr y BBC. Cyfeiriwyd at gynlluniau'r BBC ar gyfer pedair prif sianel.

### **Materion Gwleidyddol**

Adroddodd y Cadeirydd ei bod hi a'r Prif Weithredwr yn defnyddio'r tymor cynadleddau gwleidyddol i gyfarfod â gwleidyddion o bob un o'r prif bleidiau er mwyn eu briffio ynglyn â sefyllfa S4C wrth i'r Llywodraeth baratoi i gyhoeddi Papur Gwyn ar Gyfathrebu. Bu'r ddau ohonynt yn bresennol yng nghynhadledd Plaid Cymru; a chynhadledd y Blaid Lafur yn Brighton; byddent hefyd yn mynychu cynhadledd y Blaid Geidwadol yn Bournemouth. Roeddynt hefyd yn bwriadau trefnu cyfarfod ar gyfer y Democratiaid Rhyddfrydol.

## **Animeiddio**

- (a) Lawns Chwedlau'r Byd Wedi'u Hanimeiddio – Cynhaliwyd lawns da iawn yn Uwch Gomisiwn De'r Affrig ar gyfer *Chwedlau'r Byd Wedi'u Hanimeiddio* lle bu nifer o lysgenaid, neu eu cynrychiolwyr, y 26 gwlad oedd wedi cyfrannu at y cyd-gynhyrchiad yn bresennol. Nodwyd bod yna bosibilrwydd y gallai'r cyd-gynhyrchiad hwn fynd i mewn i'r *Guinness Book of Records* fel y cyd-gynhyrchiad mwyaf erioed yn y byd.
- (b) Gwyl Ddrama Ysgolion - Shakespeare - Byddai'r Cadeirydd yn mynychu'r wyl hon oedd yn cael ei drefnu gan y Cyfarwyddwr Animeiddio. Os byddai'n llwyddiannus roedd yn fwriad i'w ehangu i ysgolion yng ngweddill Prydain ar gyfer wyl wedi ei seilio ar y sgrïptiau *Dramâu Shakespeare Wedi'u Hanimeiddio*.

## **Strategaeth Pum Mlynedd**

Cynhaliodd yr Awdurdod drafodaeth ar bapur wnaeth osod allan strategaeth awgrymedig ar gyfer 2001-2005. Roedd hon yn ddogfen allweddol fyddai'n sail i'r cyfeiriad byddai S4C yn mynd iddo yn y blynyddoedd i ddod; byddai'n sail hefyd i'r cynllun corfforaethol ar gyfer 2001-2003 i'w gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn.

## **Coleg Digidol**

Esboniodd y Prif Weithredwr y datblygiadau diweddaraf yng ngwaith y Coleg Digidol ac ymhelaethodd ar sut yr oedd y Coleg Digidol bellach yn ymwneud â'r cynllun Cymru Ar-Lein (sef, cynllun i'w gynnig ar gyfer Arian Amcan 1). Byddai lawns y Coleg Digidol ar 1 Tachwedd 2000.

## **Cydymffurfiaeth**

Derbyniwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn dilyn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2000. Roedd yr Awdurdod yn falch i nodi'r ffaith bod yr adroddiad ar Ymdriniaeth Rhaglenni S4C o Gynadleddau'r Pleidiau Gwleidyddol 1999-2000 yn dangos bod y sylw a roddwyd i'r pleidiau wedi bod yn gytbwys.

Aethpwyd ymlaen i drafod dau fater penodol gofynnwyd i'r Awdurdod eu hystyried parthed problemau roedd cynllunwyr yr amserlen yn eu hwynebu yn arbennig, felly, oherwydd prinder y slotiau ar analog ar gyfer rhaglenni Cymraeg hwyrach yn y noson. Y ddwy esiampl a ystyriwyd oedd: *Llwyth o Docs* a ddangoswyd rhwng 8.30 y.h. a 9.00 y.h. a *Lolipop Eisteddfod* a ddangoswyd rhwng 9.00 y.h. a 9.30 y.h. Teimlwyd nad oedd amser darllediad *Lolipop Eisteddfod* yn anaddas; ac, er nad oedd yr hyn a welwyd yn *Llwyth o Docs* - lle portreadwyd cwpl sado-masochistaid yn ystod sgets ddoniol - ynddo'i hun yn annerbyniol, dylid, fel rheol, osgoi darlledu cyn 9.00 y.h. rhaglenni ac eitemau ar bynciau o'r fath yma, pa bynnag mor ysgafn ei natur. Cydnabuwyd, er hynny, y problemau a wynebwyd gan gynllunwyr yr amserlen.

## **Diwygiadau i Gôd Rhaglenni yr ITC – Ymateb S4C i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Ystyriodd yr Awdurdod bapur ymgynghorol yr ITC yn cynnig newidiadau i'w Côd Rhaglenni. Roedd gan yr Awdurdod ddiddordeb arbennig yn y mater hwn gan fod ganddo gyfrifoldeb i sicrhau bod y rhaglenni a ddarledwyd gan S4C yn cydymffurfio â Chanllawiau yr ITC (yn ogystal â chanllawiau S4C ei hun). Byddai sylwadau'r Awdurdod ar y ddogfen ymgynghorol yn cael eu danfon at yr ITC.

### **Gohebiaeth: Cylch yr Iaith**

Ystyriwyd llythyr ynglyn â gwasanaeth Radio Cymru a ddanfonwyd at bob Aelod o'r Awdurdod gan Cylch yr Iaith. Byddai llythyr yn cael ei yrru yn ôl at Gylch yr Iaith ar ran yr Awdurdod yn diolch am yr ohebiaeth gan sôn bod yr Awdurdod wedi nodi'r cynnwys ac wedi cyfleu'r farn taw mater i Radio Cymru oedd hwn yn bennaf. Er hynny, roedd yr Awdurdod hefyd am gyfeirio at y ffaith bod y defnydd o Saesneg mewn rhaglenni Cymraeg S4C yn rhywbeth yr oedd yr Awdurdod yn ei ystyried yn rheolaidd.

### **Materion Eraill**

Ystyriodd yr Awdurdod hefyd adroddiadau yn ymwneud â:

- materion ariannol
- materion masnachol
- rhaglen waith yr Awdurdod ar gyfer 2001
- cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 28 Gorffennaf 2000
- Cwynion
- cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 15 Medi 2000
- ymchwil.